**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Maria Caulfield AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Strategaeth  Iechyd Menywod
Y Gweinidog Menywod

17 Mai 2023

Annwyl Maria

Ymchwiliad i ganserau gynaecolegol

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn edrych ar brofiadau menywod sydd â symptomau o ganser gynaecolegol, o ran sut mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwrando arnynt ac yn eu trin, a sut mae gwasanaethau yn grymuso ac yn gofalu am fenywod sydd wedi cael diagnosis o ganser gynaecolegol i sicrhau y caiff eu hanghenion corfforol, eu hanghenion seicolegol a'u hanghenion ymarferol eu diwallu.

Rydym yn deall bod cyllid newydd ar gael gan Lywodraeth y DU i greu canolfannau iechyd menywod newydd, fel rhan o'r Strategaeth Iechyd Menywod yn Lloegr. Dylai'r canolfannau wella mynediad at ofal ar gyfer menywod a merched sydd â phroblemau mislif, materion atal cenhedlu, poen yn y pelfis, menopos ac ati.

Byddai gennym ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am y canolfannau iechyd menywod, yn arbennig mewn clywed:

- A yw'r canolfannau'n canolbwyntio'n bennaf ar ofal iechyd rhywiol ac atgenhedlol, neu a ydynt yn cael eu hystyried yn ateb i'r heriau y mae menywod yn eu hwynebu o ran mynediad at ofal canser gynaecolegol hefyd.
- Manylion am yr hyn y mae'r canolfannau yn ei gynnig, sut y gall claf gael mynediad at y gwasanaethau, pwy sy'n staffio'r canolfannau a faint maent yn ei gostio i'w cynnal.
- A oes unrhyw dystiolaeth bod y canolfannau'n cefnogi diagnosis cyflymach o ganserau gynaecolegol. P'un a oes unrhyw un o'r canolfannau iechyd menywod wedi'u gwerthuso.

Er mwyn helpu i lywio sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol, byddem yn ddiolchgar i gael eich ymateb erbyn dydd Llun 12 Mehefin 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.